# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 29 Chwefror 2012** |
| Amser: | **09:32 - 12:13** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400001_29_02_2012&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Nick Ramsay (Cadeirydd)**<br>**Byron Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Julie James**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Eluned Parrott**<br>**David Rees**<br>**Ken Skates**<br>**Joyce Watson**<br>**Leanne Wood** |
| Tystion: | **Carl Sargeant, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**<br>**Frances Duffy, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru**<br>**Tim James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rhwydweithiau a Chynllunio**<br>**Martin Evans, Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg**<br>**Yr Athro Stuart Cole, Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru, Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Andrew Minnis (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog – y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'i swyddogion. Holodd yr Aelodau'r Gweinidog.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ynghylch yr hyn a ganlyn:

- Pan fydd yn briodol, y wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf ysgrifenedig yn rhoi manylion am gynigion y Gweinidog ynghylch cludo nwyddau, a'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob un o'r camau tuag at ddarparu a nodwyd yn Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru;

- Manylion am y trafodaethau rhwng y Prif Weinidog a Llywodraeth y DU ynghylch y cyfleoedd arfaethedig ar gyfer yr M4;

- Manylion am waith a wnaed i wella'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de;

- Y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn trafodaethau ar y cynllun newydd ar gyfer cyllido bysiau, a darparu'r dangosyddion perfformiad allweddol i fesur llwyddiant y cynllun;

- Mwy o fanylion am ffigurau sylfaenol cyfraddau'r Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau a chymhariaeth â Lloegr, gan gynnwys cymhariaeth o gyfraddau'r grant cyn eu lleihau, a chymhariaeth o'r cyfraddau newydd yng Nghymru a Lloegr ar ôl cynnwys pob lwfans ac ad-daliad ychwanegol sydd ar gael;

- Copi o'r gwaith a wnaed gan gadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar drafnidiaeth ysbyty nad yw ar gyfer achosion brys;

- Mwy o wybodaeth am gyflawni a chyllido'r cynllun gweithredu cerdded a seiclo, gan gynnwys cyfraddau llwyddiant a'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r cynllun;

- Ffigurau sy'n dangos yr hyn y mae'r Canolfannau Teithio Cynaliadwy wedi'i gyflawni ynghyd â manylion am y cyllid refeniw a ddyrannwyd i'r cynllun Trefi Teithio Cynaliadwy, yn hanesyddol ac ar gyfer y tair blynedd nesaf.

## 3. Ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru – Sesiwn dystiolaeth

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Martin Evans a'r Athro Stuart Cole i'r cyfarfod. Holodd yr Aelodau'r tystion.

3.2 Bydd y cwestiynau na chawsant eu gofyn yn cael eu hanfon at yr Athro Cole, a gytunodd i ddarparu nodyn.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Cynigiodd y Cadeirydd gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig, a symudodd i sesiwn breifat.

## 5. Trafod y Flaenraglen Waith - Ystyried ymchwiliad ar gyfer y dyfodol

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i brentisiaethau yng Nghymru a chytunodd ar y cylch gorchwyl drafft, er y bydd ambell newid yn cael ei wneud iddo.

## 6. Papurau i'w nodi

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.